

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

Hysbysir trwy hyn yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) a'r Côt Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig adleoli a chynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa, Heol Goffa, Llanelli, SA15 3LS o 75 i 120 o leoedd. Caiff yr ysgol ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Y bwriad yw rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2023 pan argymhellir symud i mewn i'r adeilad newydd.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar [dudalen ymgynghori Ysgol Heol Goffa](#)

Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 101, ac mae gan yr ysgol 75 o leoedd ar gyfer disgyblion a'r nifer o leoedd arfaethedig unwaith y caiff y cynnig ei weithredu fydd 120. Ni fydd unrhyw newid i drefniadau derbyn Ysgol Heol Goffa, bydd hyn yn parhau drwy gyfrwng panel cynhwysiant.

Ni fydd dalgylch yr ysgol yn newid.

Cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **7 Chwefror 2021**, gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Mr Gareth Morgans, Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB neu gellir anfon neges e-bost at aaprma@sirgar.gov.uk

Llofnod: Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin

Dyddiedig: 11 Ionawr 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r Nodyn Esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad – yn hytrach fe'i cynigir er mwyn eglurder)

1. Bwriad yr Awdurdod yw cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa o 75 i 120 o leoedd.
2. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Heol Goffa wedi'i lleoli yn Heol Goffa, Llanelli, SA15 3LS, gyda lle i 75 o ddisgyblion. Mae adeilad ysgol newydd yn cael ei gynnig a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023. Bydd safle newydd yr ysgol wedi'i leoli

wrth ymyl Ysgol Pen Rhos, Heol Copperworks, Llanelli, SA15 2NG a gwblhawyd yn ddiweddar.